Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6
Adroddiad ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chyfnerthed Ecosystemau 2024/25

Cyngor Cymuned Llannor

Cyflwyniad

Mae Cyngor Llannor yn darparu amrediad o wasanaethau i'w cymuned leol sy'n cael effaith ar fioamrywiaeth. Mae rhain yn cynnwys:

• Cyfrifoldeb am nifer o fannau gwyrdd, gan gynnwys cae chwarae Efailnewydd, Parc Mwynderau Abererch, Hen Fynwent Abererch, Cae Chwarae Y Ffor a sawl llwybr lleol.

• Rydym yn hyrwyddo cynaliadwyedd a bioamrywiaeth drwy gyflawni amcanion cynaliadwyaeth a gweithredu arferion cynaliadwy lle bynnag y bo modd.

• Mae dalgylch y Cyngor yn nhiriogaeth Llyn, ac yn glwstwr o bentrefi bach a chanolig eu maint sydd wedi ei lleoli mewn cefn gwlad prydferth.

• Asgwrn cefn yr economi leol yw'r diwydiannau amaeth, bwyd a thwristiaeth. Mae'r tirwedd yn gymysgedd o dir glas, corsdir, rhosydd a choedwigaeth.

• Mae ffigwr cyfrifiad a gynhaliwyd ar y 21/03/2021 yn nodi fod 2086 o etholwyr byw o fewn y gymuned.

• Mae pedair ward yn y gymuned, Abererch, Efailnewydd, Pentreuchaf ac Y Ffor.

• Praesept y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2023/24 yw £20,000

Mae Cyngor Cymuned Llannor yn gyfrifol am gynnal a chadw tri llwybr cyhoeddus o fewn y gymuned:

Llwybr Rhif 4 – Tyddyn Shon, Rhosfawr – Categori 4

Llwybr Rhif 6 – Wern Sais, Abererch – Categori 2

Llwybr Rhif 7 – Y Berllan, Abererch – Categori 1

Adroddiad Gweithredu		
Camau gweithredu i:		Wedi monitro gan:
Cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael.	Wrth ymateb i geisiadau cynllunio.	Cyngor Cymuned / Cyngor Gwynedd.
-codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd.	Mae 'Coed Cadw' (Woodland Trust') eisiau sicrhau fod pawb yn y wlad yn cael y cyfle i blannu coeden, a bob mis Tachwedd maent yn cynnig coed cynhenid am ddim i ysgolion a chymunedau. Mae tair ysgol cynradd o fewn cymuned Llannor.	Cynghorwyr y Cyngor Cymuned.
-diogelu y prif rywogaethau a'r cynefinoedd	Gofalu fod ceisiadau cynllunio yn cydymffurfio gyda rheolau Cyngor Gwynedd. Sicrhau fod amseriad cytundebau torri gwair yn briodol er mwyn diogelu gloÿnnod byw, gadael i laswellt a blodau gwyllt wasgaru eu hadau cyn ei torri i sicrhau cynaladwyaeth yn ystod y	Cyngor Cymuned / Cyngor Gwynedd.

	blynyddoedd dilynol. Mae Cyngor Gwynedd yn torri gwair ar ochrau ffyrdd unwaith y flwyddyn.	
-adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth	Mae'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am gae chwarae yn Efailnewydd. Nid yw'r tir ym mhen pellaf y cael wedi cael ei dorri ers blynyddoedd, ac felly'n creu cynefin a rhwydwaith ecolegol ar gyfer pob math o blanhigion a bywyd gwyllt, a darparu lloches ar gyfer mamaliaid ac ymlusgiaid bach. Yn dilyn ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol, plannwyd nifer o goed ffrwythau cynhenid yng nghae chwarae Efailnewydd gan dim Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd. Planu ar gyfer yr eisteddfod.	Cyngor Cymuned Llannor
-mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol	Rydym yn cadw golwg manwl ar dyfiant rhywogaethau estron goresgynnol, fel canclwm siapaneaidd.	Cyngor Cymuned/Cyngor Gwynedd Pan fyddwn yn sylweddoli fod canclwm siapaneaidd yn tyfu ar ein llwybrau bydd y Clerc yn hysbysu Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd, i ddatrys y broblem.
Cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill.	Prosiect Bioamrywiaeth Ymylon Ffyrdd Gwynedd. Mr Hywyn Williams, Swyddog Bioamrywiaeth, Adran Amgylchedd y Cyngor sydd yn cydlynu'r Bartneriaeth Natur Leol o fewn y sir. Maent wedi sicrhau cyllideb o dan gynllun 'Llefydd Lleol ar gyfer Natur' Llywodraeth Cymru er mwyn buddsoddi yn isadeiledd rhai o'r safleoedd tir sydd yn mherchnogaeth y Cyngor a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd i natur Gwynedd. Mae nifer fawr o ymylon ffyrdd Gwynedd o dan berchnogaeth y Cyngor ac, yn y gorffennol, mae'r ymylon yma wedi cael eu cynnal heb	Cyngor Gwynedd / Cyngor Cymuned.

	fawr o ystyriaeth i'r fioamrywiaeth a oedd yn bodoli ynddynt.	
Cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill.	Ystyried opsiynau i gyd-weithio gyda mudiadau eraill er mwyn diogelu bioamrywiaeth o fewn y gymuned.	Cyngor Cymuned Llannor.
Defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth	Cadw golwg ar y tiroedd gwyllt sydd o fewn y gymuned ac adrodd ar unrhyw bryder i Gyngor Gwynedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru.	Cyngor Cymuned Llannor.

Arolwg o ddyletswyddau Adran 6 Monitro parhaus gan y Cynghorwyr, Clerc ac unrhyw sylwadau gan y cyhoedd. Arfarniad yn y cyfarfod blynyddol ym mis Mai bob blwyddyn.
Bwriad: Cysylltu hefo'r ysgolion cynradd lleol i weld os ydynt yn gwneud unrhyw waith yn y maes. Trefnu cyfarfod/sgwrs i gael cyngor pellach gan Swyddog Bioamrywiaeth Lleol.
Adolygu: Adolygiad nesaf Mai 2026.